# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 22 Tachwedd 2002

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi i Dy Hafan. (WAQ20676)

**Elin Jones (Ceredigion);** Beth yw'r cynnydd ar gael ymgynghorydd cardiolegol yn Ysbyty Bronglais. (WAQ20682) **W**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o'r staff Gwybodaeth a TG sy'n gweithio i Awdurdodau Iechyd ar hyn o bryd gaiff eu trosglwyddo i'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes. (WAQ20678) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o'r staff sy'n gweithio i Awdurdodau Iechyd ar hyn o bryd gaiff eu trosglwyddo i'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes. (WAQ20679) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith sydd i'w wneud yn y dyfodol i gydgysylltu gwasanaethau gwybodaeth a TG cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru. (WAQ20680) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa sefydliadau fydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a TG cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru yn dilyn yr ailstrwythuro arfaethedig. (WAQ20681) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o'r staff sy'n gweithio i Awdurdodau Iechyd ar hyn o bryd gaiff eu trosglwyddo i Ganolfan Iechyd Cymru. (WAQ20683) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A fydd cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei sefydlu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes mewn perthynas â'r gwasanaethau cenedlaethol y cyfeirir atynt yn Adroddiad Cynnydd Rhaglen Newidiadau Strwythurol y GIG, dyddiedig 15 Hydref 2002. (WAQ20684) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o’r staff Gwybodaeth a TG sy’n gweithio i

Awdurdodau Iechyd ar hyn o bryd gaiff eu trosglwyddo i Ganolfan Iechyd Cymru. (WAQ20685) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o'r staff Gwybodaeth a TG sy'n gweithio i Awdurdodau Iechyd ar hyn o bryd gaiff eu trosglwyddo i Wasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru. (WAQ20686) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o'r staff sy'n gweithio i Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd gaiff eu trosglwyddo i Wasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd. (WAQ20687) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi rhestr yn nodi'r cytundebau lefel gwasanaeth sydd wedi'u sefydlu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau o fewn GIG Cymru, o ran y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Cymru gyfan. (WAQ20688) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gwmnïau ymgynghorwyr rheoli o'r sector preifat sydd wedi'u defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar gyfer rhaglenni gwaith yr is-adran Rheoli Gwybodaeth, Technoleg ac Ystadau Iechyd yn Adran GIG Cymru, a beth yw cwmpas a gwerth y contractau unigol â phob cwmni. (WAQ20689) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa gostau a gafwyd wrth ddefnyddio cwmnïau ymgynghorwyr rheoli o'r sector preifat i roi cyngor a gwasanaethau mewn perthynas â diwygio strwythur GIG Cymru. (WAQ20690) **R**

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog egluro pryd y bydd y Taliadau Arwynebedd Tir Âr yn cael eu gwneud. (WAQ20677)